

04/01/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl rieni, gwarcheidwaid a dysgwyr gan obeithio i chi gael cyfle i ymlacio a mwynhau dros yr ŵyl?

Hoffwn gadarnhau y bydd yr ysgol ar agor i ddysgwyr ym mhob blwyddyn o fore dydd Iau 06/01/22. Yn naturiol, gyda'r cynnydd mewn achosion positif yn y gymuned, byddwn yn parhau i fonitro ein sefyllfa staffio ac yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau i rediad arferol yr ysgol cyn gynted â phosib.

Yn dilyn penderfyniad gan LC, rydym yn dychwelyd i'r ysgol ar 'Lefel Risg Uchel Iawn'. Mae'r manylion isod yn esbonio goblygiadau hyn i ni ym Mryn Tawe:

Ni ddylai dysgwyr fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau os ydynt:

- **wedi profi'n positif** ar gyfer COFID-19, naill ai drwy brawf LFT neu PCR;
- **yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COFID-19** (peswch parhaus; tymheredd uchel; colli blas; colli arogl). Os bydd dysgwr yn datblygu symptomau, dylai gael prawf PCR cyn gynted â phosibl a hunan ynysu tan iddo gael canlyniad y prawf. Os bydd y prawf yn negatif, gall roi'r gorau i hunan ynysu.

Bydd unrhyw un sy'n datblygu symptomau COFID-19 yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei anfon adref ar unwaith.

GORCHUDDION WYNEB / MYGYDAU:

- Dylai dysgwyr, staff ac ymwelwyr **wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal dan do** yn yr ysgol, **gan gynnwys ystafelloedd dosbarth**.
- Dylai dysgwyr barhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.

PROFION LFT

- Disgwylir i **ddysgwyr oedran uwchradd i ddefnyddio profion LFT deirgwaith yr wythnos, cyn dod i'r ysgol** ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener gan gofnodi eu canlyniadau.
- Os bydd dysgwyr yn **profi'n positif wrth ddefnyddio prawf LFT, dylid hunan ynysu a bwcio prawf PCR yn syth**.
- Byddwn yn darparu profion llif fesul pythefnos i bob disgybl er mwyn profi deirgwaith yr wythnos.
- **Mae trefn newydd i ddysgwyr sydd yn cael eu hadnabod fel 'cyswllt agos i achos positif'. Os cânt eu nodi fel cyswllt i achos positif, disgwylir i ddysgwyr ddefnyddio profion llif ochrol (LFTs) bob dydd am 7 diwrnod.** Gelwir hyn yn 'Brofi Cyswllt Dyddiol'. Dylech yna ddychwelyd i brofi 3 gwaith yr wythnos.
- Dylai dysgwyr sy'n cymryd 'Profion Cyswllt Dyddiol' eu **defnyddio cyn iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd**. Nid oes angen i'r unigolion hyn hunan-ynysu am y diwrnod hwnnw os yw'r canlyniad yn negatif.
- Fe allwn ddarparu fwy o brofion llif i ddisgyblion sydd yn 'gyswllt agos i achos positif'.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies



- Gofynnwn i chi fel rhieni / gwarcheidwaid, **er mwyn amddiffyn pob un o gymuned Bryn Tawe rhag yr haint**, i sicrhau bod eich plentyn / plant yn dilyn y camau profi uchod yn wythnosol.

MESURAU COFID:

Yn unol â 'Lefel Risg Uchel' byddwn yn parhau i weithredu ar y cyngor iechyd rydym yn ei dderbyn gan y llywodraeth a'r ALL, sef sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn:

- Golchi dwylo'n drylwyr neu ddiheintio dwylo yn amlach nag arfer.
- Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golcha dy ddwylo'.
- Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion a chadw pellter cymdeithasol pan fo'n bosibl.
- Sicrhau bod pob ystafell a choridor yn cael ei awyru'n addas.
- Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd.
- Defnydd o system un ffordd o gwmpas yr adeilad.

OFFER YSGOL

Bydd angen i **bob disgybl ddod ag offer ei hun i'r ysgol** gan nad yw'n arfer diogel i rannu offer gyda disgyblion o dan yr amodau newydd yma. Os oes unrhyw anhawster gyda darparu offer i'ch plentyn, plis cysylltwch gyda ni i drafod fel y gallwn eich cefnogi?

EGWYL A CHINIO

Byddwn yn parhau i ddarwahanu blynyddoedd yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn y ffreutur, neuaddau ac ar y buarthau. Gwyddwn ei fod yn fwy diogel ac iach i ddysgwyr fod y tu allan yn yr awyr iach. Gofynnwn i chi felly sicrhau bod eich **plentyn yn dod â chot gynnes er mwyn gallu treulio cyfnodau egwyl a chinio y tu allan**, pan yn sych.

Mae'n glir bod angen i ni dynhau ar yr holl fesurau Cofid o fewn yr ysgol er mwyn gallu amddiffyn pob un sy'n gysylltiedig â chymuned Bryn Tawe. Siom yw nodi nad yw pob disgybl wedi llwyddo i gydymffurfio gyda rhai o'r mesurau yma yn ddigon cyson - yn enwedig gwisgo mwgwd yn gywir a dilyn ein system unffordd. Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus yn sicrhau bod eich plentyn yn adnabod difrifoldeb ac yn parchu pwysigrwydd y mesurau allweddol yma.

Ga i ofyn i chi gyd ail bwysleisio pwysigrwydd y mesurau yma er mwyn gallu cefnogi iechyd a lles staff a disgyblion ac er mwyn cynnal dysgu wyneb i wyneb yn yr ysgol.

Os oes unrhyw gwestiwn gennych, plis cysylltwch gyda ni yn yr ysgol.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Aur

